

TYSTYSGRIF SGILIAU IAITH:

Edrych ar dasgau'r Prawf Ysgrifennu

CYNNWYS Y PECYN

Bwriad y ddogfen hon.....	2
Rhan 1 – Tasg Cywiro	3
Atebion a Sylwadau Rhan 1 – Cywiro.....	6
Rhan 2 – Trawsieithu	8
Atebion a Sylwadau Rhan 2 – Trawsieithu 2017	15
Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd.....	17
Atebion a Sylwadau Ysgrifennu Rhydd	24

Bwriad y ddogfen hon

Bwriedir yr adnodd hwn ar gyfer ymgeiswyr a fydd yn sefyll prawf ysgrifennu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith. Dyma'r cymhwyster a ddarperir mewn partneriaeth rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CBAC. Mae dwy ran i'r cymhwyster, sef y Cyflwyniad Llafar a'r Prawf Ysgrifennu. Rhaid sefyll y prawf Ysgrifennu ar-lein a chaniateir hyd at 90 munud i wneud hyn. Mae hawl gan ymgeiswyr i ddefnyddio Cysill i gyflawni'r prawf ac mae pob papur yn cael ei farcio'n allanol (h.y. nid eich tiwtor iaith sy'n marcio'r prawf).

Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae lluo o adnoddau cefnogol ar gael i fyfyrwyr ar wefan [Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#). Yn eu plith, mae cyn bapurau ac adroddiadau blynyddol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys y cynlluniau marcio gwreiddiol, yr atebion a achosodd anhawster i ymgeiswyr, sylwadau gan yr arholwyr a'r marcwyr, ystadegau, gwybodaeth am ffiniau graddau, ac yn y blaen.

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi canllaw i ddarpar ymgeiswyr a fydd yn sefyll y prawf Ysgrifennu. Mae'n cynnwys enghreifftiau da o waith ymgeiswyr y gorffennol¹, tasgau trafod, sylwadau a chynghorion.

Cynnwys y Prawf Ysgrifennu

Mae tair rhan i'r prawf Ysgrifennu:

- Rhan 1 – Tasg cywiro
- Rhan 2 – Trawsieithu
- Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd,

a rhoddir enghreifftiau o'r tair rhan a thasgau isod.

¹ Diolch i'r ymgeiswyr a roddodd eu caniatâd i gynnwys eu gwaith yn yr adnodd hwn. Newidiwyd manylion personol, er mwyn sicrhau bod y cyfan yn ddienw

Rhan 1 – Tasg Cywiro

Nod Rhan 1 yw mesur gallu'r ymgeisydd i adnabod gwallau mewn testun byr a'u cywiro. Mae cyfanswm o 22 gwall i gyd, **dau** wall ymhob brawddeg. Mae Cysill yn gallu adnabod 4 o'r gwallau yn y testun a rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r rhain; rhoddir 2 farc yr un am y gweddill. Y cyfanswm ucha posib felly yw 40, a hanerir y sgôr hwn i roi marc allan o 20.

Cynghorion cyffredinol

- Peidiwch â chywiro mwy na dau beth ymhob brawddeg;
- Defnyddiwch Cysill â gofal, a pheidiwch â derbyn y dewis amgen cyntaf a gynigir bob tro;

Tasgau trafod

Mae cwestiynau 2017, 2018 a 2019 isod ynghyd â chynigion gan ymgeiswyr i bob un. Trafodwch y cynigion hyn, gan roi cylch o gwmpas y gwallau a gollwyd, h.y. y camgymeriadau y methodd yr ymgeiswyr eu gweld. Mae'r atebion a sylwadau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Edrychwch ar y *mathau* o wallau sy'n codi yn y tri phapur, a gwnewch restr ohonyn nhw, e.e. treigladau, cenedl enwau ac ati.

Tasg Cywiro 2017

Croeso cynnes i'r Coleg y Cwm Cynon. Mae gan y Coleg campws yn pob tref ledled yr ardal. Yn gystal ag astudio, mae digon o cyfle i fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Beth am wneud ymholiadau yn y campws i chi'n astudio yn?

Ceir clwb drama ar un campws yn barod ac ambell clwb arall sy'n rhoi cyfle i chi cymdeithasu a chael hwyl. Bydd aelodau'r clwb drama yn paratoi perfformiad o ddrama i'r myfyrwyr arall a'r cyhoeddus yn gyson. Tybed, myfyriwr brwd, a oes clwb neu gymdeithas addas amdanat ti yno?

Ambell waith, mai'n syniad da ffurfio clwb newydd. Er enghraifft, roedd un fyfyrwr yn ymddiddori mewn ffotograffiaeth, felly, bu'n holi, yn e-bost ac yn teithio i bob campws. Defnyddiodd cyfryngau cymdeithasol yr undeb yn y Coleg hefyd i ddod i hyd i fyfyrwyr a oedd yn ymddiddori yn yr un pwnc. Erbyn hyn, mae tua deg ohono yn cyfarfod yn wythnos i drafod lluniau'i gilydd.

2017 Cynnig Ymgeisydd

Croeso cynnes i **Coleg Cwm Cynon**. Mae gan y Coleg **gampws mewn** pob tref ledled yr ardal. Yn **ogystal** ag astudio, mae digon **o gyfle** i fwynhau **drwy** gyfrwng y Gymraeg. Beth am wneud ymholiadau yn y campws **yr ydych** chi'n astudio **ynddo**?

Ceir clwb drama ar un campws yn barod ac ambell **glwb** arall sy'n rhoi cyfle i chi **gymdeithasu** a chael hwyl. Bydd aelodau'r clwb drama yn paratoi perfformiad o ddrama i'r myfyrwyr **eraill** a'r **cyhoedd** yn gyson. Tybed, **fyfyrwr** brwd, a oes clwb neu gymdeithas addas i ti yno?

Ambell waith, **mae'n** syniad da **ffurfio** clwb newydd. Er enghraifft, roedd **un myfyrwr** yn ymddiddori mewn ffotograffiaeth, felly, bu'n holi, **drwy** e-bost ac yn teithio i bob campws. Defnyddiodd **gyfryngau** cymdeithasol yr undeb yn y Coleg hefyd i ddod **o** hyd i fyfyrwyr a oedd yn ymddiddori yn yr un pwnc. Erbyn hyn, mae tua deg **ohonynt** yn cyfarfod yn **wythnosol** i drafod lluniau'i gilydd.

Tasg Cywiro 2018

Hoffwch chi weithio yn gwlad arall yn ystod y gwyliau? Sefydlid cwmni newydd yng Nghasnewydd ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n awydd i weithio dramor. Enw cwmni yw Man Gwyn, ac mae'n canolbwyntio ar wledydd sydd â chysylltiad â Chymru ar dros y byd. Er enghraifft, mae cyfle i fynd i Batagonia a gweithio adeg y gwyliau gyda phlant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg. Bydd y cwmni'n talu dros eich tocyn awyren yn ogystal â'ch bwyd ac eich llety ym mhob gwlad. Gwlad bell eraill y mae'n bosib i chi weithio ynddo yw Seland Newydd. Medrwch weithio mewn cartrefu a gofalu am blant dan ddeuddeg oedran, lle mae'r fam neu'r tad yn siarad Cymraeg ac eisiau iddyn nhw gael digon o gyfle i ymarfer yr iaith. Cynigiodd sawl cyfle i weithio mewn gwledydd agosaf na'r ddwy uchod. Beth am dreulio'r gyfnod yn Llydaw, neu mewn Ysgol Gymraeg Llundain? Ewch amdano, ehangwch eich orwelion! Cysylltwch i gwmni Man Gwyn i gael manylion bellach.

2018 Cynnig Ymgeisydd

Hoffech chi weithio **mewn** gwlad arall yn ystod y gwyliau? **Sefydlir** cwmni newydd yng Nghasnewydd ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg **a** sy'n **awyddus** i weithio dramor. **Enw'r** cwmni yw Man Gwyn, ac mae'n canolbwyntio ar wledydd sydd â chysylltiad â Chymru **ledled** y byd. Er **enghraifft**, mae cyfle i fynd i Batagonia a gweithio adeg y gwyliau gyda phlant sy'n **mynychu** ysgolion Cymraeg. Bydd y cwmni'n talu **am** eich tocyn awyren yn ogystal â'ch bwyd ac eich llety ym mhob gwlad. Gwlad bell **arall** y mae'n bosib i chi weithio **ynddi** yw Seland Newydd. Medrwch weithio mewn **cartrefi** a gofalu am blant dan ddeuddeg **oed**, lle mae'r fam neu'r tad yn siarad Cymraeg ac eisiau iddyn nhw gael digon o **gyfleoedd** i ymarfer yr iaith. **Cynigir** sawl cyfle i weithio mewn gwledydd agosaf na'r ddwy uchod. Beth am dreulio'r **cyfnod** yn Llydaw, neu **yn** Ysgol Gymraeg Llundain? Ewch **amdani**, ehangwch eich **gorwelion**! Cysylltwch **â chwmni** Man Gwyn i gael manylion **pellach**.

Tasg Cywiro 2019

Y llynedd, cynhaliodd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd, lle nad oedd ffin penodol i'r Maes. Felly, doedd dim rhaid i eisteddfodwyr talu er mai mynd o gwmpas y stondinau a'r pebyll. Roedd hwn yn syniad newydd ac roedd hi'n posibl i'r bobl nid oeddynt yn arfer mynychu'r eisteddfod gael mynediad yn rhad ac am ddim.

At ein gilydd, roedd hon yn arbrawf llwyddiannus. Cafodd yr eisteddfodwyr newydd cyfle i gael blys ar awyrgylch yr Eisteddfod. Pwy a wyr, efallai y bydden nhw'n mynd i Eisteddfod Llanrwst eleni. Os aethon nhw ym mhabell y dysgwyr yng Nghaerdydd, efallai ei fod wedi dechrau dysgu Cymraeg yn barod. Wrth gwrs, roedd rhaid talu i fynd i mewn i'r pafiliwn a'r babell len yn ogystal â'r cyngherddau bob noswyl.

Doedd bopeth ddim yn fodlon pawb. Trefnwyd gweithgareddau yn adeilad y Senedd a gollodd rhai eisteddfodwyr hanner y sesiynau oherwydd bod rhaid arnyn nhw aros yn hir cyn mynd i mewn. Wedyn, roedden nhw'n cael eu archwilio gan swyddogion ddiogelwch.

2019 Cynnig Ymgeisydd

Y llynedd, **cynhaliwyd** yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd, lle nad oedd ffin **benodol** i'r Maes. Felly, doedd dim rhaid i eisteddfodwyr **dal**u er **mwyn** mynd o gwmpas y stondinau a'r pebyll. Roedd hwn yn syniad newydd ac roedd hi'n **bosibl** i'r bobl **nad oedd** yn arfer mynychu'r eisteddfod gael mynediad yn rhad ac am ddim.

Ar y cyfan, roedd hon yn arbrawf **lwyddiannus**. Cafodd yr eisteddfodwyr newydd **gyfle** i gael **blas** ar awyrgylch yr Eisteddfod. Pwy a **wyr**, efallai y bydden nhw'n mynd i Eisteddfod Llanrwst eleni? Os aethon nhw **i babell** y dysgwyr yng Nghaerdydd, efallai **eu bod** wedi dechrau dysgu Cymraeg yn barod. Wrth gwrs, roedd rhaid talu i fynd i mewn i'r pafiliwn a'r babell **lên** yn ogystal â'r cyngherddau bob **nôs**.

Doedd **popeth** ddim yn **plesio** pawb. Trefnwyd gweithgareddau yn adeilad y Senedd a gollodd rhai eisteddfodwyr hanner y **sesiynnau** oherwydd bod rhaid **iddyn** nhw aros yn hir cyn mynd i mewn. Wedyn, roedden nhw'n cael eu **harchwilio** gan swyddogion **diogelwch**.

Atebion a Sylwadau Rhan 1 – Cywiro

Dyma sylwadau ar y tasgau trafod.

2017 Cynnig Ymgeisydd:

Croeso cynnes i **Coleg Cwm Cynon**. Mae gan y Coleg **campws newydd** pob tref ledled yr ardal. Yn **ogystal** ag astudio, mae digon o **gyfle** i fwynhau **drwy** gyfrwng y Gymraeg. Beth am wneud ymholiadau yn y campws **yr ydych** chi'n astudio **ynddo**?

Ceir clwb drama ar un campws yn barod ac ambell **glwb** arall sy'n rhoi cyfle i chi **gymdeithasu** a chael hwyl. Bydd aelodau'r clwb drama yn paratoi perfformiad o ddrama i'r myfyrwyr **eraill** a'r **cyhoedd** yn gyson. Tybed, **fyfyrwr** brwd, a oes clwb neu gymdeithas addas i ti yno?

Ambell waith, **mae'n** syniad da **ffurfio** clwb newydd. Er enghraifft, **oedd un myfyrwr** yn ymddiddori mewn ffotograffiaeth, felly, bu'n holi, **drwy** e-bost ac yn teithio i bob campws. Defnyddiodd **gyfryngau** cymdeithasol yr undeb yn y Coleg hefyd i ddod o hyd i fyfyrwyr a oedd yn ymddiddori yn yr un pwnc. Erbyn hyn, mae tua deg **ohonynt** yn cyfarfod yn **wythnosol** i drafod lluniau'i gilydd.

Sylwadau cynnig ymgeisydd 2017:

1. Mae angen treigladd meddal ar y dechrau: 'i Goleg'.
2. Mae'r ymadrodd 'pob tref' yn benodol, felly'r arddodiad 'yn' sydd ei angen, h.y. ym mhob tref. Byddai 'ymhob tref' yn gwbl dderbyniol hefyd.
3. Gan ei bod hi'n bosib dweud 'yng nghampws y coleg', derbyniwyd yr ateb hwn, er mai 'arno' fyddai fwyaf naturiol efallai.
4. Yn y cynllun marcio, 'yn holi, yn ebostio ac yn teithio' oedd yr ateb cywir. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi newid y geiriad gan gadw'r synnwyr ac felly'n derbyn y marc.

Cynnig Ymgeisydd 2018:

Hoffech chi weithio **mewn** gwlad arall yn ystod y gwyliau? **Sefydlir** cwmni newydd yng Nghasnewydd ar gyfer myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a syn **awyddus** i weithio dramor. **Enw'r** cwmni yw Man Gwyn, ac mae'n canolbwyntio ar wledydd sydd â chysylltiad â Chymru **ledled** y byd.

Er **enghraifft**, mae cyfle i fynd i Batagonia a gweithio adeg y gwyliau gyda phlant sy'n **mynychu** ysgolion Cymraeg. Bydd y cwmni'n talu **am** eich tocyn awyren yn ogystal â'ch bwyd ac eich llety ym mhob gwlad. Gwlad bell **arall** y mae'n bosib i chi weithio **ynddi** yw Seland Newydd. Medrwcw weithio mewn **cartrefi** a gofalu am blant dan ddeuddeg **oed**, lle mae'r fam neu'r tad yn siarad Cymraeg ac eisiau iddyn nhw gael digon o **gyfleoedd** i ymarfer yr iaith. **Cynigir** sawl cyfle i weithio mewn gwledydd agosaf na'r ddwy uchod. Beth am dreulio'r **cyfnod** yn Llydaw, neu yn Ysgol Gymraeg Llundain? Ewch **amdani**, ehangwch eich **gorwelion**! Cysylltwch â **chwmini** Man Gwyn i gael manylion **pellach**.

Sylwadau cynnig ymgeisydd 2018

1. Mae 'Sefydli'r' yn bosibl yn ramadegol, ond nid yw'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun y darn – 'Sefydlwyd' a olygir. Camgywirwyd 'ac sy'
2. Methodd yr ymgeisydd â newid 'ac eich' i 'a'ch'.
3. Newidiwyd 'digon o gyfle' i 'digon o gyfleoedd' – mae'r ddau'n gywir, ond doedd dim angen cywiro hwn.
4. Y gwall olaf: 'agosach na' sy'n gywir.

2019 Cynnig Ymgeisydd:

Y llynedd, **cynhaliwyd** yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd, lle nad oedd ffin **benodol** i'r Maes. Felly, doedd dim rhaid i eisteddfodwyr **dal**u er **mwyn** mynd o gwmpas y stondinau a'r nebyll. Roedd hwn yn syniad newydd ac roedd hi'n **bosibl** i'r bobl **nad oedd** yn arfer mynychu'r eisteddfod gael mynediad yn rhad ac am ddim.

Ar y cyfan, roedd hon yn arbrwf **llwyddiannus**. Cafodd yr eisteddfodwyr newydd **gyfle** i gael **bias** ar awyrgylch yr Eisteddfod. Pwy a **wyr**, efallai y bydden nhw'n mynd i Eisteddfod Llanrwst eleni? Os aethon nhw i **babell** y dysgwyr yng Nghaerdydd, efallai **eu bod** wedi dechrau dysgu Cymraeg yn barod. Wrth gwrs, roedd rhaid talu i fynd i mewn i'r pafiliwn a'r babell **lên** yn ogystal â'r cyngherddau bob **nos**.

Doedd **popeth** ddim yn **plesio** pawb. Trefnwyd gweithgareddau yn adeilad y Senedd a golodd rhai eisteddfodwyr hanner y **sesiynnau** oherwydd bod rhaid **iddyn** nhw aros yn hir cyn mynd i mewn. Wedyn, roedden nhw'n cael eu **harchwilio** gan swyddogion **diogelwch**.

Sylwadau cynnig ymgeisydd 2019

1. Mae hwn yn wall a achosodd benbleth i nifer: 'nad oeddynt' sy'n gywir (yn wahanol i'r cadarnhaol 'a oedd').
2. Mae 'arbrawf' yn wrywaidd, felly 'roedd hwn' oedd y cywiriad, nid treiglo 'llwyddiannus'.
3. Does dim to bach ar 'nos'. Byddai 'bob nos' neu 'nosweithiol' yn dderbyniol.
4. Cysylltair yw 'a' yma, felly treigladd laes sydd ei angen – 'a chollodd'. Camgywirwyd 'sesiynau'.

Rhan 2 – Trawsieithu

Yn y rhan hon, rhaid i'r ymgeisydd ddarllen testun Saesneg ac ysgrifennu darn Cymraeg yn seiliedig arno. Bydd gofyn crynhoi neu addasu'r wybodaeth yn y testun Saesneg ac ysgrifennu darn at ddiben penodol a ddiffinnir yn y dasg.

Yn y testun Saesneg gwreiddiol, mae pum pwynt allweddol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y trawsieithiad (y darn Cymraeg) a rhoddir 2 farc am bob un o'r rhain (1 marc am gyflawniad rhannol).

Yn y dasg, rhoddir canllaw ar gyfer nifer y geiriau i'w cynnwys yn y trawsieithiad, a dylid nodi'r nifer hwnnw ar y diwedd er hwyluso'r gwaith marcio.

Sut mae'r rhan hon yn cael ei hasesu?

Y meini prawf asesu yn y rhan hon yw: cywirdeb, ystod y cystrawennau a'r eirfa a ddefnyddir, addasrwydd cynnwys y trawsieithiad, ynghyd â'r pum pwynt allweddol. Mae'r cynlluniau marcio manwl yn yr adroddiadau blynyddol, gan gynnwys y pum pwynt allweddol y dylai'r ymgeiswyr gyfeirio atynt.

Cynghorion cyffredinol

- Peidiwch â chyfieithu'r testun gwreiddiol – nid dyna bwrpas y dasg;
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at y prif bwyntiau angenrheidiol i gyd.

Tasgau trafod

Mae tasgau trawsieithu 2017, 2018 a 2019 isod, ynghyd â dau gynnig ar bob un. Trafodwch:

- Y cryfderau a'r gwendidau ymhob cynnig
- Y marc tebygol am gywirdeb, ystod ac addasrwydd
- P'un a ydy'r cynigion wedi cyfeirio'n llawn at y pwynt allweddol ai peidio
- O'r ddau gynnig, pa un yw'r un gorau?

Tasg Trawsieithu 2017

2. Trawsieithu

[40]

Ymddangosodd yr erthygl isod mewn papur newydd. Lluniwch grynodedb ohoni ar gyfer gwefan Gymraeg eich gweithle/coleg. Rhaid i chi gynnwys y pwyntiau allweddol i gyd yn eich crynodeb.

Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.

FORGING STRONGER LINKS

At a recent conference in Gregynog, mid Wales, delegates from universities in Wales and South America convened to discuss ways of collaborating, in order to forge stronger links between Wales and Patagonia. During the nineteenth century, many Welsh people risked their lives in their quest to seek fairer and better living conditions by sailing thousands of miles in small sailing ships to create a new colony or *gwladfa*, in their adopted country. The conference was funded by the Welsh Government in Cardiff and the universities represented by the delegates.

A few of the representatives who formed the South American contingent at the conference were descendants of the first emigrants. All the speakers who lectured at the conference are presently studying – or intending to study – various aspects of the relationship between the two countries. A number of speakers gave talks on these topics. Among the historical themes discussed at the conference were the roles of the first pioneering leaders, the relationship between the emigrants and descendant native Patagonian population, and the way they adapted their farming methods to suit the climate and terrain in south America.

Contemporary issues were also discussed by delegates. Recent technological advancements and improved modes of communication and travel enable far more people and ideas to criss-cross the Atlantic. Youth organisations arrange visits annually; travel companies have been established to arrange recreational, educational and cultural visits for older people. Language tutors and teachers spend longer periods in Patagonia in order to teach the Welsh language to children and adults who aspire to master the language of their forefathers. There are many other students and children learning the language who have no historical links at all with Wales and the Welsh language. In the past, many students from Patagonia have also attended summer courses and college courses in Wales in order to improve their linguistic skills. Methods of maintaining and developing these present-day connections were discussed in workshops during the three-day study period.

Following the conference, the organisers will publish a trilingual report in Welsh, Spanish and English, outlining the main recommendations. It will be presented to the governments of both countries and disseminated to universities in Wales and Patagonia. One-to-one partnerships between universities were also formed during their period in mid Wales, with a view to forging more permanent links in the future. This arrangement should form the basis of further collaboration, specifically to promote scientific and technological matters, in addition to the historical and cultural liaisons that already exist.

Cynnig Ymgeisydd 2017 A

Daeth cynrychiolwyr o brifysgolion Cymru a De America at ei gilydd mewn cynhadledd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r prifysgolion. Bwriad y digwyddiad yng Nghanolbarth Cymru oedd datblygu cysylltiadau rhwng Cymru a Phatagonia.

Roedd y siaradwyr i gyd yn ymchwilio'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad neu yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol a bu sawl o'r Americanwyr yn ddisgynyddion gwladychwyr y Wladfa. Trafodwyd yn y gynhadledd faterion hanesyddol, megis y newidiadau yn y ffordd o fyw yr oedd angen arnynt eu derbyn a hefyd pynciau cyfoes fel y teithiau i'r Wladfa a drefnir. Cafwyd trafodaethau ar yr addysg Gymraeg yn Ne America a'r cyrsiau ar gyfer myfyrwyr o Batagonia yng Nghymru.

Yn yr adroddiad mewn tair iaith nodwyd argymhellion ar ddatblygu cysylltiadau bellach i'r ddwy Lywodraeth. Datblygodd y prifysgolion partneriaethau newydd a threfnwyd cydweithio ar amryw bynciau.

Cynnig Ymgeisydd 2017 B

Daeth dirprwyon o brifysgolion Cymru a De America at ei gilydd mewn cynhadledd ddiweddar er mwyn cryfhau cysylltiadau rhwng Cymru a'r Ariannin. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, teithiodd llawer o'r Cymry i'r Wladfa, yn chwilio amodau byw gwell. Ariannwyd y gynhadledd gan Lywodraeth Gymru.

Roedd rhai o'r cynrychiolwyr yn perthyn i'r ymfudwyr cyntaf. Trafodwyd themâu hanesyddol, fel rôl yr arloeswyr cyntaf a'r berthynas rhwng yr ymfudwyr a'r boblogaeth leol, a phynciau cyfoes hefyd. Mae technoleg fodern yn galluogi mwy o syniadau i groesi'r môr. Mae sefydliadau ieuenctid a chwmnïoedd teithio yn trefnu teithiau bob blwyddyn, ac mae yna fwy o bobl yn dysgu Gymraeg.

Wedi'r gynhadledd cyhoeddir adroddiad yng Nghymraeg, Sbaeneg a Saesneg, a'i rhoi i lywodraethau a phrifysgolion y ddwy wlad. Arweinia'r partneriaethau sydd wedi eu ffurfio rhwng y prifysgolion at fwy o gydweithio yn y dyfodol.

2. Trawsieithu

[40]

Buoch chi mewn cynhadledd addysg yn ddiweddar. Ysgrifennwch erthygl i gylchgrawn eich gweithle neu'ch coleg yn crynhoi'r hyn a drafodwyd yn y gynhadledd, ar sail y darn isod. Rhaid i chi gynnwys y pwyntiau allweddol i gyd yn eich crynodeb.

Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.

At a conference jointly-organised by Welsh universities and schools, delegates discussed methods of recruiting more teachers and tutors to teach Welsh as a subject and to teach subjects through the medium of the language. In view of the Welsh Government's aim to ensure that a million people are able to speak the language by 2050, concern has been voiced that the education sector on all levels, from primary to higher education, will need more teachers and tutors in order to fulfil the aim of reaching that challenging target. The Minister responsible for the Welsh language in the Welsh Government opened the conference with a keynote speech emphasising her commitment to the work of promoting strategies to attract more teachers of the language in future.

There were representatives present from the teachers' unions, teachers' training departments, as well as students who are currently studying in schools, colleges and universities in Wales. The conference discussed reasons why young people are not attracted to the profession. Recent research commissioned by the universities came to the conclusion that the general image of the work did not encourage pupils to consider this as a career pathway. Among the negative issues discussed were the unreasonable amount of paperwork, discipline problems in schools and the stress factors linked to attaining good league table performances. The students present emphasised that there were many other attractive job prospects on offer for young people embarking on professional careers.

During the afternoon session, delegates expressed the importance of a lively Welsh curriculum that is relevant to the present-day situation of pupils. Teachers and lecturers present at the conference emphasised the positive aspects of teaching and the satisfaction gained from inspiring children and young people. They mentioned the importance of class discussions, helping young people to make sense of their world and strengthening their awareness of Welsh speakers within their own communities. The conference concluded that a positive learning experience would ensure that all pupils, including those not attracted to the teaching profession, would be far more eager to speak the language and embark on careers where the Welsh language is a necessary skill, when they leave full time education.

A full report of the conference will be drafted and forwarded to the Education Minister and the Minister responsible for the Welsh language. Members expressed the importance of ministers incorporating the matters raised during the conference in their future language strategies.

Ymgais Ymgeisydd 2018 A

Trafodwyd yn y Gynhadledd Addysg y dulliau o recriwtio mwy o athrawon a thiwtoriaid sy'n dysgu'r pwnc Cymraeg a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod miliwn o bobl yn medru siarad Cymraeg erbyn 2050, bydd angen mwy o athrawon a thiwtoriaid. Dywedodd y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr iaith Cymraeg ei bod yn ymrwymo gyda'r gwaith o hyrwyddo strategaethau i ddenu mwy o athrawon Cymraeg yn y dyfodol. Mae ymchwil gan Brifysgolion yn dangos bod y gwaith sy'n gysylltiedig gyda dysgu ddim yn denu pobl i'r maes yn ogystal â swm y gwaith papur, problemau disgyblaeth yn yr ysgol a straen cadw safonau perfformio uchel. Amlygwyd pwysigrwydd cwricwlwm sydd yn berthnasol i sefyllfaoedd dyddiol disgyblion a thrafodaethau dosbarth. Gall profiad dysgu da sicrhau bod disgyblion yn siarad yr iaith.

Ymgais Ymgeisydd 2018 B

Cynhaliwyd cynhadledd gan Brifysgolion ac Ysgolion Cymraeg ynghyd â chynrychiolwyr a myfyrwyr presennol. Roedd y drafodaeth ar sail nod Llywodraeth Cymru i sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodwyd bod angen dulliau newydd er mwyn denu mwy o athrawon a thiwtoriaid i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddysgu'r pwnc.

Pwysleisiodd Gweinidog iaith Llywodraeth Cymru pa mor awyddus oedd hi i hyrwyddo strategaethau er mwyn denu mwy o athrawon at yr iaith.

Yn ogystal, trafodwyd pam nad yw pobl ifanc yn cael eu denu i'r yrfa. Dywedodd y myfyrwyr nad oedd y gwaith yn apelio at ddisgyblion a bod yno lawer mwy o swyddi atyniadol eraill iddynt i'w hystyried.

Ar ddiwedd y gynhadledd, nodwyd aelodau y dylai'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog iaith sicrhau i ymgorffori'r materion a godwyd yn eu strategaethau.

Tasg Trawsieithu 2019

2. Trawsieithu

[40]

Ymddangosodd yr erthygl ganlynol mewn cylchgrawn yn ddiweddar. Gofynnodd eich pennaeth i chi grynhoi ei chynnwys, er mwyn ei rhoi ar wefan eich gweithle.

Ysgrifennwch o leiaf 120 o eiriau, a pheidiwch ag ysgrifennu mwy na 140 o eiriau. Nodwch nifer y geiriau ar ddiwedd eich erthygl.

An Impassioned Plea

The wildlife television presenter Ifan Williams addressed a large audience in the University of Offa's Dyke last week. He gave a passionate talk on the importance of nature conservation and the changes that he has witnessed in the area since his teenage years, thirty five years ago.

When he was a young lad in those borderlands, he often used to play truant from school and spend days on end, roaming the hills. During his excursions he saw kingfishers, hen harriers, and could hear the longing call of curlews. He also described how he used to tickle fish – the trout – in the only river that flows eastwards across the Dyke. Lying on his back in the hay meadows on the banks of that river during the months of May and June, he used to hear the distinct two notes of the cuckoo, very often nearby.

During the weekends, he had the opportunity to go further afield and he used to walk uphill on to the moors and the mountains. While walking there, he witnessed upland birds like the black grouse, before trekking to the highest summit on the mountain range. From that vantage point he could see the varied panorama of the English lowlands on one side and the Welsh hills to the west on the other side.

The tone of his talk then changed. He gave a vivid description of a recent walk to the same area. Not a single curlew could to be heard. A local farmer told him that he hadn't heard the cuckoo for five years and ninety nine per cent of the hay meadows had disappeared. An old fisherman he met complained that there are no fish left in the river. Large tracts of the moorland and mountains he used to roam were covered in evergreen trees. He compared these trees to nails in the coffin of the wildlife of the area.

But he didn't blame the farmers for the changes. The politicians, the decision-makers and the 'spineless bureaucrats' who distributed grants and allowed this situation to develop were to blame for the decline in wildlife activity, according to Ifan. The clock, he suggested, had struck the eleventh hour; but it wasn't too late to retrieve the situation and turn the clock back. At the end of the talk, members of the audience were invited to ask questions and a lively discussion ended a memorable evening.

Ymgais Ymgeisydd 2019 A

Wythnos diwethaf, yn Offa's Dyke, rhoddodd Ifan Williams cyflwyniad ar gadwraeth natur. Disgrifiodd sut, pan roedd yn ifanc, roedd e arfer chwarae yn yr ardal yn gwylio adar gwahanol, ffeindio pysgod megis brithyll yn yr afon, a gwrando ar gan y gwcw yn y cae. Hefyd, wnaeth sôn am sut, ar penwythnosau, aeth i dop y mynydd i weld adar uwchdir ac edmygu'r golwg dros Loegr i'r un ochr, a Chymru i'r llall.

Wedyn, newidiodd ei gyflwyniad i siarad am y siom teimlodd wrth ymweld â'r un ardal yn ddiweddar. Doedd dim pysgod yn yr afon, dim cwcw i glywed, ac roedd y tirlun wedi newid yn hollol. Nid ffermwyr, dywedodd, ond y gwleidyddion oedd ar fai. Gorffennodd gan ddweud fod e ddim yn rhy hwyr i newid y sefyllfa, ac i hybu'r natur oedd yno o'r blaen.

Ymgais Ymgeisydd 2019 B

Wythnos diwethaf, yn Offa's Dyke, rhoddodd Ifan Williams cyflwyniad ar gadwraeth natur. Disgrifiodd sut, pan roedd yn ifanc, roedd e arfer chwarae yn yr ardal yn gwylio adar gwahanol, ffeindio pysgod megis brithyll yn yr afon, a gwrando ar gan y gwcw yn y cae. Hefyd, wnaeth sôn am sut, ar penwythnosau, aeth i dop y mynydd i weld adar uwchdir ac edmygu'r golwg dros Loegr i'r un ochr, a Chymru i'r llall.

Wedyn, newidiodd ei gyflwyniad i siarad am y siom teimlodd wrth ymweld â'r un ardal yn ddiweddar. Doedd dim pysgod yn yr afon, dim cwcw i glywed, ac roedd y tirlun wedi newid yn hollol. Nid ffermwyr, dywedodd, ond y gwleidyddion oedd ar fai. Gorffennodd gan ddweud fod e ddim yn rhy hwyr i newid y sefyllfa, ac i hybu'r natur oedd yno o'r blaen.

Atebion a Sylwadau Rhan 2 – Trawsieithu 2017

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2017 A

Dim ond ychydig o fân wallau a gafwyd, e.e. 'bu sawl o'r Americanwyr', '... yr oedd angen arnynt eu derbyn.' Mae'r eirfa a'r cystrawennau'n gwbl addas i'r dasg, e.e. gwladychwyr, 'nodwyd argymhellion...' Mae'r darn yn gwbl addas o ran ffurf, hyd a chywair (ffurfiol). Mae rhai pwyntiau allweddol ar goll yn rhannol, e.e. pwyntiau 2, 3 a 4 (gw. y cynllun marcio manwl).
[Cyfanswm: 32]

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2017 B

Prin iawn yw'r gwallau ('yng Nghymraeg'), ac mae'r eirfa a'r cystrawennau'n gwbl addas a than reolaeth. Mae'r darn yn gwbl addas o ran ffurf, hyd a chywair. Efallai fod un o'r pwyntiau allweddol yno'n rhannol, e.e. pwynt 3 (gw. y cynllun marcio manwl).
[Cyfanswm: 38]

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2018 A

Mae rhai gwallau, ond heb ymyrryd â dealltwriaeth, e.e. yr iaith Cymraeg, ei bod yn ymrwymo gyda... Mae'r eirfa a'r cystrawennau yn addas, (gan gynnwys ffurfiau amhersonol). Mae'r ystyr yn mynd ar goll yn y frawddeg sy'n dechrau â 'Mae ymchwil gan Brifysgolion...'. Mae rhai o'r pwyntiau allweddol yn amwys, pwyntiau 4 a 5 (gw. y cynllun marcio manwl).
[Cyfanswm: 31]

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2018 B

Mae hwn yn gynnig cywir ar y cyfan, er bod gwall amlwg yn y frawddeg olaf, sef 'nodwyd aelodau...'. Mae'r eirfa a'r cystrawennau'n gwbl addas, a'r testun yn gwbl addas i'r dasg a osodwyd. Mae rhai pwyntiau allweddol ar goll yn rhannol, sef pwyntiau 3 a 4 (y rhesymau cadarnhaol a negyddol). [Cyfanswm: 31]

*Mae'r ddau uchod yn debyg o ran cyrhaeddiad.

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2019 A

Mae hwn yn gynnig rhagorol. Mae'n gywir a defnyddir ystod lawn o gystrawennau a geirfa dan reolaeth lwyr. Mae'r testun yn gwbl addas o ran ffurf, hyd a chywair. Mae'n cyfeirio at y rhan fwyaf o'r pwyntiau allweddol yn llawn.
[Cyfanswm: 37]

Sylwadau Cynnig Ymgeisydd 2019 B

Mae rhai gwallau amlwg yn y cynnig hwn, gan gynnwys camdreiglo. Ceir peth camddefnydd o eirfa a chystrawen, ond heb danseilio'r ystyr. Mae'r cynnig yn dangos dealltwriaeth o'r testun gwreiddiol, ac yn cyfeirio at y rhan fwyaf o'r pwyntiau allweddol.

[Cyfanswm: 30]

Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd

Dyma gyfle i'r ymgeisydd ysgrifennu testun mwy estynedig, ar sail sbardunau penodol. Mae pwrpas eithaf cyffredinol i'r ysgrifennu, e.e. gwneud cais, gwahodd, llunio adroddiad ayb. Fodd bynnag, rhaid ymateb i'r sbardunau i gyd a rhoddir marc am bob un. Gwelir yn aml fod y marciau am y rhan hon yn well na'r marciau a ddyfernir ar gyfer Rhan 1 a Rhan 2.

Sut mae'r rhan hon yn cael ei hasesu?

Y meini prawf asesu ar gyfer y rhan hon yw:

- Cywirdeb
- Ystod
- Cynnwys a threfn
- Ateb y gofynion

Rhoddir marc allan o 10 am bob un i roi cyfanswm allan o 40. Yn y fanyleb, mae nifer o

ddisgrifyddion wrth bob maen prawf a marc yn gysylltiedig â nhw. Mae'r marcwyr yn penderfynu pa ddisgrifyddion sy'n gweddu orau i'r testun a gyflwynwyd ac yn nodi'r marc cyfatebol. Ystyr 'ateb y gofynion' yw'r sbardunau sydd yn rhan o'r dasg – mae 5 ohonynt, a rhoddir 2 farc yr un am ateb y rhain yn llawn, 1 marc am ateb yn rhannol.

Cynghorion cyffredinol

- Fel arfer, mae'n well ysgrifennu o'ch profiad personol, ond does dim *rhaid* gwneud hynny;
- Cofiwch gyfeirio at y gofynion i gyd.

Tasgau trafod

Mae papurau 2017, 2018 a 2019 isod ynghyd ag un enghraifft ragorol sy'n ymateb i bob tasg.

Trafodwch gryfderau'r cynigion hyn.

Yna, mae tri chynnig gwahanol yn ymateb i'r dasg ym mhapur 2019. Trafodwch drefn teilyngdod y cynigion hyn, h.y. y gorau, yr ail orau a'r trydydd. Rhowch resymau dros eich penderfyniad ar sail y meini prawf asesu.

Tasg Ysgrifennu Rhydd 2017

3. Ysgrifennu Rhydd

[40]

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir.

Rydych chi'n gwneud cais i fynd ar brofiad gwaith perthnasol i chi. Ysgrifennwch y cais, gan sôn am yr isod (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- pam rydych chi eisiau mynd ar brofiad gwaith yno;
- beth gallwch **chi** ei gynnig i'r gweithle;
- y cyfnod yr hoffech ei dreulio yn y gweithle (nodwch **ddau** ddewis);
- profiad perthnasol rydych wedi ei gael yn y gorffennol;
- eich gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynnig Rhagorol 2017

Hoffwn wneud cais i dreulio cyfnod o brofiad gwaith yn Ysgol Uwchradd Aberwylan. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn addysg a'r iaith Gymraeg gan fy mod yn astudio gradd mewn Addysg Gymraeg Uwchradd. Hoffwn gael profiad er mwyn datblygu fy sgiliau, hybu hyder a phrofi agweddau gwahanol o fod yn athrawes ail iaith.

Byddai diddordeb gennyf i weithio ar ddau gyfnod gwahanol: Ym mis Medi, er mwyn nabod y disgyblion newydd a gweld sut mae'r athrawon yn cyflwyno'r iaith Gymraeg iddynt, ac adeg y ffug arholiadau TGAU er mwyn gweld sut mae'r ysgol a'r disgyblion yn paratoi, sut mae pawb yn ymdopi â'r gwaith a beth yw'r trafferthion sydd yn codi'n fwy aml.

Rwyf wedi bod yn gweithio yn y maes addysg am bum mlynedd, ac wedi gweithio gydag ystod eang o oedrannau. Mae profiad gennyf mewn gweithio gydag asiantaethau allanol, aelodau'r gymuned, pwyllgorau rhieni a staff yn gyffredinol.

Gweithiais mewn ysgol uwchradd eleni a ches i brofiad addysgiadol iawn yn addysgu Cymraeg Ail Iaith. Roeddwn yn athrawes i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, a ches i'r cyfle a'r pleser i gynorthwyo yn nosbarthiadau Anghenion Ychwanegol a Chyfnod Allweddol 4.

Yn yr ysgol honno, trefnais glwb darllen a chlwb gwaith cartref i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, ac roedd yn llwyddiannus iawn. Roedd disgyblion hŷn yn helpu'r plant llai a gwnaeth pawb fwynhau'r profiad.

Nid yw'r Gymraeg yn fy iaith gyntaf, ac mae'r ffaith fy mod wedi dysgu'r iaith Gymraeg yn fy arddegau wedi effeithio ar agwedd y disgyblion yn gadarnhaol; a'u hannog i lwyddo.

Rwyf wedi ymdopi mewn modd arbennig â gofynion y swydd ac wedi cael fy asesu'n ffurfiol gan athrawon, pennaeth adran yr ysgol a mentoriaid. Cefais ganlyniadau ardderchog yn yr asesiadau hyn a dyna pam rwyf yn fodlon cael profiad gwaith mewn ysgol wahanol.

Rwyf yn edrych ymlaen at fynd ar brofiad gwaith unwaith eto, a byddai'r ysgol arbennig hon yn le rhagorol i wneud hwn. (317 gair)

Tasg Ysgrifennu Rhydd 2018

3. Ysgrifennu Rhydd

[40]

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir.

Ysgrifennwch lythyr cais am swydd at gyflogwr o'ch dewis chi, gan sôn am yr isod (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- pam rydych chi'n gymwys i wneud y swydd hon (cofiwch nodi teitl y swydd);
- unrhyw brofiad perthnasol sydd gennych;
- sut mae eich personoliaeth yn gweddu i'r swydd;
- un enghraifft o'ch profiad sy'n dangos eich gallu i wneud y swydd;
- unrhyw **ddau** gwestiwn i'r cyflogwr.

Cynnig Rhagorol 2018

Annwyl Mrs Davies,

Ysgrifennaf atoch i gynnig am y swydd athrawes ddosbarth a hysbysebir gennych o fewn eich ysgol.

Yn bresennol, astudir y cwrs BA Addysg Gynradd gyda SAC ym Mhrifysgol Aberwylan. Deillia fy mrwdfrydedd i addysgu o'r profiadau bythgofiadwy a dderbyniais i o fewn eich ysgol dros ddeng mlynedd yn ôl. O ganlyniad, byddwn wrth fy modd yn cychwyn fy ngyrfa fel athrawes ddosbarth o fewn eich ysgol.

Canmola fy nhiwtoriaid fy mrwdfrydedd ac angerdd sydd wedi fy nghymorth, nid yn unig wrth gwblhau aseiniadau ond hefyd ar lawr y dosbarth. Ceisiaf roi o fy ngorau i'r disgyblion ar bob adeg wrth gynllunio tasgau ymarferol a hwyliog i'w hannog i fwynhau dysgu.

Treuliais amser mewn tair ysgol yn Sir Gaerfyrddin wrth gwblhau fy mhrofiadau addysgu proffesiynol. O ganlyniad, cafwyd profiadau eang ar lawr dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Wrth ymgymryd yn fy mhrofiadau addysgu proffesiynol, datblygais ddiddordeb yng nghyraeddiadau llythrennedd bechgyn. Yn bresennol, rydw i ar fun cwblhau fy mhrofiad addysgu proffesiynol olaf mewn dosbarth Blwyddyn 3 a 4. O fewn y dosbarth, mae'r mwyafrif yn fechgyn ac o ganlyniad, deellir pwysigrwydd cynllunio tasgau ymarferol a hwyl i ennyn eu diddordeb. O ganlyniad, defnyddir egwyddorion y

Cyfnod Sylfaen o fewn fy ngwersi. O ganlyniad, cynlluniwyd gwers archeoleg. Roedd y bechgyn wrth eu boddau yn palu trwy'r pridd yn edrych am arteffactau Celtaidd. Ysgrifennwyd adroddiad yn amlinellu eu canfyddiadau. Braf oedd gweld eu brwdfrydedd i gwblhau'r dasg ac roedd safon y gwaith yn arbennig.

Wrth ystyried y newidiadau sylweddol sydd ar y gweill yng Nghymru. Sut ydych yn mynd ati i baratoi eich ysgol ar gyfer y newidiadau? Ymhellach, a ydych am gyflogi athro neu athrawes gydag arbenigedd arbennig? Diolch am ddarllen ac ystyried fy nghais.

Yr eiddoch yn gywir,

[319 gair]

Tasg Ysgrifennu Rhydd 2019

3. Ysgrifennu Rhydd

[40]

Rhaid i chi ysgrifennu rhwng 290 a 320 o eiriau. Byddwch yn colli marciau os bydd eich darn ysgrifennu'n rhy fyr neu'n rhy hir.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch i berswadio cyflogwyr fod yr iaith Gymraeg yn ddefnyddiol yn y gweithle. Gofynnwyd i chi ysgrifennu darn i'w roi mewn taflen a anfonir at gyflogwyr i gefnogi'r ymgyrch.

Ysgrifennwch y darn gan gyfeirio at y pwyntiau isod, (does dim rhaid dilyn y drefn hon):

- eich cefndir ieithyddol;
- y maes yr hoffech weithio ynddo;
- y manteision i **chi** o allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- **Un** enghraifft o'ch profiad lle bu sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol;
- y manteision i **gyflogwyr** o benodi staff â sgiliau Cymraeg.

Cynnig Rhagorol 2019

Fy enw i yw Mari Morys. Rwy'n dod o deulu Cymraeg, ac yn siaradwraig Gymraeg iaith gyntaf. Cymraeg yw'r iaith rwy'n ei defnyddio adref, gyda fy ffrindiau a hefyd yn fy astudiaethau. Wedi i mi adael y Brifysgol, hoffwn weithio ym maes llenyddiaeth, er enghraifft mewn gwasg argraffu. Mae gen i ddiddordeb penodol mewn llenyddiaeth plant a buaswn wrth fy modd yn ysgrifennu, golygu neu farchnata llyfrau i blant. Mae'r iaith Gymraeg yn sicr yn fantais yn y maes hwn, mae'r ffaith fy mod yn rhugl mewn dwy iaith yn fy ngalluogi i gyrraedd cynulleidfahangach. Mae mwy o alw am lyfrau Cymraeg i blant, yn enwedig wrth gofio nod y Llywodraeth o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae llyfrau Cymraeg i blant hefyd yn cael eu defnyddio'n aml gan oedolion sy'n dysgu'r iaith, er mwyn datblygu eu sgiliau darllen a deall.

O ran fy mhrofiadau blaenorol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, bûm yn gweithio'n rhan amser fel swyddog gwasanaethau ymwelwyr yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Roedd yr iaith Gymraeg yn bwysig yn fy swydd oherwydd roedd gennyf y gallu i sgwrsio gydag ymwelwyr Cymraeg yn eu hiaith gyntaf, yn ogystal â chynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg. Yn ogystal, roedd gan nifer o ymwelwyr di-gymraeg ddiddordeb yn yr iaith, ac felly roeddwn yn falch o ateb eu cwestiynau a chynnig 'shwmae', 'diolch' neu 'hwyl fawr' wrth iddynt gyrraedd neu adael yr adeilad. Roedd nifer o fy nghyd-weithwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg yn hoff o ddefnyddio ymadroddion Cymraeg yn eu swyddi hefyd. Yn fy marn i, mae'n hollbwysig i gyflogwyr benodi staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg er mwyn dangos fod y Gymraeg yn iaith byw, sy'n cael ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Yn ogystal, mae gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith.

[303 gair]

Cymharu cynigion Ysgrifennu Rhydd 2019

Edrychwch ar y tri darn isod, a luniwyd ar gyfer papur Ysgrifennu 2019. Gosodwch y tri yn nhrefn eu teilyngdod – y gorau, yr ail orau ac yn y blaen. Rhwch resymau dros eich penderfyniad.

Ymgeisydd A

Nid Cymraeg yw fy mamiaith i. Ces i fy ngeni i rieni Saesneg, ond ces i fy anfon i ysgol gynradd Cymraeg. Ers hynny, rydw i wedi bod yn rhugl yn y Gymraeg yn ogystal i Saesneg, ac rydw i'n falch iawn ohono. Hoffwn fod yn ddoctor. Rydw i'n astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Llanaber ar hyn o bryd, ac mae gen i ddiddordeb penodol yn iechyd y cyhoedd.

Mae'r iaith Gymraeg eisoes wedi cynnig cyfleoedd a manteision i mi. Mae bod ym Mhrifysgol Llanaber wedi rhoi'r cyfle i mi ddysgu sut i drin cleifion trwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai i rai mae hwn yn syniad gwirion: pam fasa'i rhaid trin cleifion yn y Gymraeg sy'n gallu siarad Saesneg? Ond i nifer fawr o bobl yng Nghymru, Cymraeg yw eu hiaith gyntaf, a'r iaith maent yn hyderus ac yn gyfforddus i gyfathrebu ynddo. Os alla i wneud i un person teimlo'n fwy cyfforddus i rannu beth sy'n bod arnynt, er mwyn i fi gallu eu trin yn y ffordd gorau posib, bydd y gallu i siarad Cymraeg yn amhrisiadwy.

Yn ogystal i hyn, mae yna bentwr o resymau pam fod Cymraeg yn ddefnyddiol yn y maes meddygol, yn cynnwys cyfathrebiad gyda phlant. Dychmygwch blentyn, dwy oed, sydd yn siarad Cymraeg gyda Mam a Dad. Nid yw'r plentyn yma wedi dechrau'r ysgol eto, ac felly ond rhai geiriau Cymraeg sydd ganddo. Os oes gan y plentyn bola tost, ac mae'r doctor yn gofyn iddo, "ble mae'r poen?" yn Saesneg, sut all y plentyn ei hateb?

Bysai'r ffaith fy mod i'n gallu siarad Cymraeg bellach yn fantais i gyflogwyr. Yn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru, mae pob dogfen ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Os oes angen dogfen newydd yn Gymraeg, ond does neb yn y gweithlu yn rhugl, fasau'n rhaid cyflogi rhywun ychwanegol i'w drosi, sy'n costu mwy o arian a mwy o amser i'r cwmni.

Ymgeisydd B

Rydw i'n siaradwr iaith cyntaf, ac yn dod o ardal Gymraeg. Mae'n amlwg fod angen skilliau Cymraeg yn yr ardal yma ac hefyd mewn unrhyw swydd y bydden i'n debygol o fynd amdano. Y maes rwy'n bwriadu mynd mewn iddo yw Human Resources. Yn y maes yma mae rhaid i chi ddelio gyda pobl sy'n gweithio yn eich cwmni, deall beth yw eu problemau nhw a hefyd delio gyda pethau fel admin – y gwaith papur sy angen ei wneud. Beth fi rili'n mwynhau yw trefnu training events

i'r staff. Does dim swydd gyda fi ar hyn o bryd ond rydw i'n siwr fod cael Cymraeg yn mynd i fod o help mawr. I fi, rwy'n gallu gweithio drwy gyfrog yr iaith ac bydd hynny'n dda achos es i ysgol Gymraeg a chael addysg fi yng Nghymraeg. O beth fi wedi gweld, mae cael sgiliau Cymraeg yn dda iawn mewn sawl maes, dim just y maes fi'n gweithio ynddo. Mae ffeindio'r termau iawn y gallu bod y broblem, ond ar ol i chi ddod i arfer, mae'n ddigon rhwydd. Bydda i'n graddio (gobeithio!!) mewn mis neu ddau, wedyn yn dechrau chwilio am waith. Mae'n anodd, fi'n gwybod a rhaid bod yn realistic – mae pawb yn mynd am yr un swyddi ar yr un pryd, ac mae lot o ffrindiau wedi bod yn ddiwaith ers gadael y coleg. Felly, gobeithio byddwch chi'n derbyn fy nghais i am swydd yn eich cwmni chi.

Ymgeisydd C

Yn fy marn i, mae nifer o fanteision i gyflogwyr o benodi staff a sgiliau Cymraeg. Mae gallu cyfathrebu gyda chwsmeriaid, partneriaid busnes neu fuddsoddwyr posibl yn eu hiaith gyntaf yn hollbwysig. Mae'n well gan nifer o bobl drafod materion trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly mae darparu gwasanaeth Cymraeg yn fanteisiol i fusnesau.

Nid yn unig mewn byd busnes mae sgiliau'r Gymraeg o fantais. Yn y dyfodol, gobeithiaf weithio ym maes yr amgylchedd. Credaf fod gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg yn angenrheidiol yn y maes hwn. Mae cyfathrebu a pherchnogion tir mewn ardaloedd gwledig yn rhan hanfodol o'r gwaith, a bydd nifer o'r rhain yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. O fy mhrofiad i, rydw i wedi sylwi fod nifer o ffermwyr yn benodol yn fwy cyfforddus yn trafod problemau yn eu mamiaith, ac o bosib yn llai drwgdybus o bobl sydd eisiau gweithio ar eu tir. Rhan arall pwysig o'r gwaith yw cyfathrebu gyda'r wasg. Yn amlwg, trwy gyflogi staff dwyieithog, gellir cynyddu maint y gynulleidfa a fydd yn clywed y newyddion. Yn amlwg felly, mae cyflogi gweithwyr dwyieithog o fudd mawr yn y maes hwn.

Oherwydd pwysigrwydd darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ym maes yr amgylchedd, rwyf wedi gwneud ymdrech i wella fy sgiliau iaith yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol. Rwyf wedi astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo'r modd, er mwyn datblygu geirfa dechnegol yn y ddwy iaith. Yn ogystal, rwyf wedi ymgeisio ar gyfer y Dystysgrif Sgiliau Iaith a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn cael prawf ysgrifenedig o fy ngallu i weithio trwy'r Gymraeg wrth ymgeisio am swyddi.

I gloi, byddwn yn eich annog i ystyried cynnwys y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg fel sgil hanfodol wrth benodi staff yn y dyfodol, yn ogystal â darparu hyfforddiant Cymraeg i staff sydd awydd datblygu eu sgiliau ymhellach.

Atebion a Sylwadau Ysgrifennu Rhydd

Sylwadau Ymgeisydd 2017

Mae'r ymgeisydd yn ymateb i ofynion y dasg yn llawn, gan ddefnyddio adnoddau ieithyddol helaeth o ran cystrawen a geirfa. Ceir ambell wall, e.e. 'Nid yw'r Gymraeg yn fy iaith gyntaf'; 'yn le rhagorol i wneud hwn.' Mae cywair ffurfiol y mynegiant yn briodol i gynnwys y darn.

Sylwadau Ymgeisydd 2018

Mae'r llythyr hwn yn hynod gywir a dim gwallau gwerth sôn amdanyn nhw. Mae ystod yr eirfa a'r cystrawennau'n gwbl briodol i'r dasg a'r cynnwys yn gydlynus, ac yn ymateb i'r dasg mewn ffordd ddeallus. Atebir y gofynion yn ddidrafferth.

Sylwadau Ymgeisydd 2019

Dyma gynnig rhagorol sy'n hynod o gywir. Defnyddir ystod helaeth o batrymau a geirfa dan reolaeth lwyr. Mae'r cynnwys yn gwbl briodol i'r dasg, a'r cydlynyn ardderchog. Cafodd farciau llawn am y rhan hon.

Sylwadau – Cymharu cynigion Ysgrifennu Rhydd 2019

Y drefn amlwg i'r tri ymgeisydd yw C, A ac yna B. Dyma rai sylwadau ar y tri:

Ymgeisydd C

Mae hwn yn ymgeisydd rhagorol. Does dim gwallau gwerth sôn amdanyn nhw; mae ystod helaeth o ran cystrawennau a geirfa ar waith ac mae'n amlwg fod yr ymgeisydd wedi deall gofynion y dasg yn llwyr ac yn gallu eu cyflawni'n ddeallus ac yn drefnus. Mae'n ateb y gofynion a nodwyd yn y dasg i gyd yn ddidrafferth. Marc amcan = 40

Ymgeisydd A

Mae hwn yn ymgeisydd da iawn. Ceir rhai mân wallau, e.e. 'ysgol gynradd Cymraeg', 'yn ogystal i'. Defnyddia ystod o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg. Mae'r darn yn drefnus ar y cyfan a'r ymgeisydd wedi deall gofynion y dasg yn iawn ac yn ateb y sbardunau i gyd. Marc amcan = 36

Ymgeisydd B

Mae'r frawddeg olaf yn awgrymu bod yr ymgeisydd hwn wedi camddeall gofynion y dasg a'r cyfanwaith braidd yn anhrefnus. O ran y sbardunau yn y dasg, methodd ag ateb dau ohonynt yn iawn, gan golli nifer o farciau hawdd.

Mae'r darn yn brin o eiriau hefyd.

Marc amcan = 18